Estyn | Dros ddysgwyr, dros Gymru
For learners, for Wales

# Adroddiad ar

# Ysgol Glanrafon

Lon Bryn Coch
Yr Wyddgrug
Sir y Fflint
CH7 1PS

Dyddiad yr arolygiad: Ionawr 2026

gan

Estyn, Arolygiaeth Ei Fawrhydi dros Addysg

a Hyfforddiant yng Nghymru

## Ynglŷn ag Ysgol Glanrafon

| | |
|---|---|
| Enw'r darparwr | Ysgol Glanrafon |
| Awdurdod lleol | Cyngor Sir y Fflint |
| Iaith y darparwr | Cymraeg |
| Categori ysgol yn ôl y ddarpariaeth cyfrwng Cymraeg | |
| Math o ysgol | Cynradd |
| Cymeriad crefyddol | |
| Nifer y disgyblion ar y gofrestr | 326 |
| Disgyblion o oedran ysgol statudol | 233 |
| Nifer yn y dosbarthiadau meithrin | 50 |
| Canran y disgyblion sy'n gymwys i gael prydau ysgol am ddim dros gyfartaledd o dair blynedd (Canran genedlaethol y disgyblion sy'n gymwys i gael prydau ysgol am ddim dros gyfartaledd o dair blynedd yn y sector Cynradd yw 21.7%) | 6.9% |
| Canran y disgyblion y nodwyd bod ganddynt anghenion dysgu ychwanegol (a) (Canran genedlaethol y disgyblion y nodwyd bod ganddynt anghenion dysgu ychwanegol yn y sector Cynradd yw 9.2%) | 10.7% |
| Canran y disgyblion sy'n siarad Cymraeg ar yr aelwyd | 55.8% |
| Canran y disgyblion sy'n siarad Saesneg fel iaith ychwanegol | * |
| Partner arweiniol ar gyfer Addysg gychwynnol athrawon | Nac ydy |

| | |
|---|---|
| Dyddiad penodi'r pennaeth | |
| Dyddiad yr arolygiad blaenorol gan Estyn (os yw'n berthnasol) | |
| Dyddiad dechrau'r arolygiad | 19/01/2026 |

Daw'r data hwn o ddata diweddaraf y Cyfrifiad Ysgol Blynyddol ar Lefel Disgyblion. Efallai byddant ychydig yn wahanol i'r hyn a arsylwyd yn ystod yr arolygiad.

Mae gwybodaeth ychwanegol ar gael o wefan Llywodraeth Cymru, Fy Ysgol Leol: Fy Ysgol Leol (gov.wales)

a. Mae'r term 'anghenion dysgu ychwanegol' yn cael ei ddefnyddio i ddisgrifio disgyblion sydd ar gofrestr AAA/ADY yr ysgol

## Crynodeb

Mae Ysgol Glanrafon yn darparu amgylchedd gofalgar a chynhwysol, ac mae'n chwarae rhan ganolog yn ei chymuned leol. Mae arweinwyr yn gosod disgwyliadau uchel ac wedi sefydlu gweledigaeth gynhwysfawr sy'n blaenoriaethu cynnydd a lles disgyblion. Mae hyn yn cefnogi ymddygiad da ar draws yr ysgol, gyda disgyblion yn dangos parch, caredigrwydd a balchder amlwg at ei gilydd a'u hysgol.

Mae'r corff llywodraethol yn gweithredu'n effeithiol, gan gefnogi'r ysgol yn frwdfrydig a herio arweinwyr yn briodol. Maent yn adnabod yr ysgol yn dda ac yn gwerthuso'r ddarpariaeth yn fwriadus.

Mae'r gofal a'r gefnogaeth emosiynol a ddarperir gan staff yn gryfder nodedig. Maent yn adnabod disgyblion yn dda ac yn ymateb yn sensitif i'w hanghenion unigol. Mae hyn yn cefnogi'r rhan fwyaf o ddisgyblion, gan gynnwys y rhai ag anghenion dysgu ychwanegol (ADY), i wneud cynnydd cadarn o'u mannau cychwyn.

Mae'r cwricwlwm yn eang, cytbwys ac ysgogol, gyda chyfleoedd pwrpasol i ddisgyblion weithio'n greadigol ac ymgysylltu â dysgu yn yr awyr agored. Mae'r addysgu yn gadarn ar draws yr ysgol. Mae cyflymder pwrpasol i'r sesiynau dysgu ac mae profiadau'n herio disgyblion yn effeithiol. Ar y cyfan, mae'r adborth gan staff i ddisgyblion yn eu cynorthwyo i adnabod y camau nesaf yn eu dysgu. Er hyn, nid yw'r adborth bob tro'n cefnogi disgyblion i wella eu gwaith ysgrifenedig yn ddigon cyson.

Mae disgyblion yn cyfrannu syniadau'n frwd am yr hyn y maent yn dymuno ei ddysgu ac yn dyfalbarhau i weithio'n annibynnol. Er hyn, nid yw'r cyfleoedd i ddisgyblion gynllunio ac i wneud penderfyniadau yn annibynnol am eu dysgu wedi'u gwreiddio'n llawn hyd yma.

Mae datblygiad medrau darllen a mathemateg disgyblion yn gryfderau amlwg. Mae llawer o ddisgyblion yn darllen yn rhugl, yn defnyddio ystod o strategaethau i ddeall ystyr testun yn fedrus ac yn cymhwyso'u medrau rhif yn hyderus ar draws y cwricwlwm.

Mae disgyblion yn y dosbarth arbenigol yn gweithio'n hynod gadarnhaol gyda staff a chyfoedion, ac maent yn ymddwyn yn dda. Maent yn meithrin eu hyder yn gyson ac yn gwneud cynnydd cadarn o'u mannau cychwyn. Mae'r ddarpariaeth gynhwysol, gan gynnwys cyfleoedd gwerthfawr i ymuno â dosbarthiadau'r prif ffrwd, yn cefnogi ymdeimlad cryf o berthyn ac yn cryfhau medrau cymdeithasol a chyfathrebu'r disgyblion yn fwriadus.

## Argymhellion

Rydym wedi gwneud dau argymhelliad i helpu'r ysgol barhau i wella

A1 Darparu cyfleoedd cyson i ddisgyblion wneud penderfyniadau am beth a sut maent yn dysgu

A2 Ehangu’r cyfleoedd i ddisgyblion ymateb i adborth a gwella eu gwaith ysgrifenedig

## Beth sy’n digwydd nesaf

Bydd yr ysgol yn llunio cynllun gweithredu i fynd i’r afael â’r argymhellion o’r arolygiad.

## Prif werthusiad

Mae arweinwyr yr ysgol yn hyrwyddo gweledigaeth gytûn o gymuned ddysgu hapus a gofalgar lle mae pob disgybl yn cael ei werthfawrogi a'i gefnogi i ffynnu. Mae'r pennaeth, arweinwyr a'r staff yn dîm effeithiol ac angerddol sy'n cynnig profiadau cyfoethog mewn amgylchedd diogel a chefnogol. Mae'r pennaeth yn arweinydd cadarn ac yn gosod cyfeiriad strategol clir i'r ysgol. Mae ganddi ddisgwyliadau uchel iawn ohoni hi ei hun ac eraill. Drwy hyn, mae disgyblion yn ymddwyn yn dda ac yn dangos parch a charedigrwydd at oedolion a disgyblion eraill ar draws yr ysgol yn gyson. Maent yn falch o'u hysgol.

Mae'r llywodraethwyr yn gefnogol iawn ac yn adnabod yr ysgol a'r gymuned yn dda. Trwy ymweld yn rheolaidd a thrafod gyda staff a disgyblion, mae ganddynt ddealltwriaeth briodol o gryfderau'r ysgol a'r meysydd i'w gwella. Maent yn herio arweinwyr ar agweddau penodol o'r ddarpariaeth yn fwriadus.

Mae darpariaeth yr ysgol ar gyfer cefnogi anghenion emosiynol disgyblion yn effeithiol. Mae staff yn adnabod disgyblion yn dda ac yn gweithio'n sensitif i ddiwallu eu hanghenion. Mae hyn yn hybu disgyblion i ymgysylltu â'u dysgu yn llwyddiannus. Drwy hyn, mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion, gan gynnwys y rhai ag anghenion dysgu ychwanegol (ADY), yn gwneud cynnydd da yn eu medrau o'u mannau cychwyn.

Mae staff yr ysgol wedi datblygu cwricwlwm eang ac ysgogol sy'n ennyn a chynnal diddordeb disgyblion yn llwyddiannus. Mae'r cwricwlwm yn adeiladu'n dda ar wybodaeth, medrau a dealltwriaeth flaenorol, ac yn canolbwyntio'n bwrpasol ar ddatblygu medrau creadigol, cymdeithasol ac emosiynol  disgyblion. Mae athrawon yn darparu cyfleoedd buddiol i ddisgyblion gyfrannu eu syniadau ac i ddysgu'n rheolaidd yn yr awyr agored. Mae hyn yn hybu brwdfrydedd disgyblion yn eu dysgu a balchder amlwg yn eu gwaith.

Mae gan staff ddisgwyliadau uchel ar gyfer dysgu'r disgyblion. Mae'r addysgu'n cynnig her a chyflymder effeithiol sy'n hwyluso'r dysgu yn effeithiol. Mae staff yn defnyddio ystod o ddulliau holi'n fedrus er mwyn ymestyn dealltwriaeth disgyblion ac i fynd i'r afael â chamsyniadau yn eu dysgu. Nid yw adborth athrawon yn cefnogi disgyblion i wella eu gwaith ysgrifenedig yn ddigon cyson.

Mae athrawon yn cydweithio'n effeithio gyda'r nod o sicrhau cysondeb yn y dulliau addysgu. Maent yn darparu gweithgareddau cyffrous sy'n annog disgyblion i gymhwyso eu medrau ac i weithio'n annibynnol. Er hyn, nid yw'r cyfleoedd i ddisgyblion gynllunio ac i wneud penderfyniadau annibynnol am eu dysgu wedi'u gwreiddio'n llawn hyd yma.

Ar draws yr ysgol, mae staff yn modelu iaith yn effeithiol. Yn y dosbarthiadau dysgu sylfaen, mae staff yn cefnogi datblygiad medrau iaith gynnar disgyblion yn fedrus. Mae'r ysgol yn adeiladu ar y gwaith hwn yn llwyddiannus wrth i ddisgyblion fynd yn hŷn. Erbyn

Blwyddyn 6, mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion yn siarad yn hyderus ac yn defnyddio ystod werthfawr o eirfa'n llwyddiannus mewn amrywiaeth o gyd-destunau.

Un o gryfderau nodedig yr ysgol yw'r ddarpariaeth ar gyfer datblygu medrau darllen disgyblion. Mae staff yn darparu cyfleoedd cyfoethog i ddisgyblion sy'n hybu ymdeimlad o gariad at ddarllen yn gelfydd. Mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion yn darllen â rhuglder ac yn defnyddio strategaethau pwrpasol i ddeall ystyr geiriau, brawddegau a pharagraffau o fewn testun. Maent yn cymhwyso eu medrau darllen yn llwyddiannus mewn amrywiaeth o gyd-destunau ar draws y cwricwlwm

Mae'r ddarpariaeth i ddatblygu dealltwriaeth disgyblion o gysyniadau mathemategol yn hynod effeithiol. Mae'n cynorthwyo'r rhan fwyaf o ddisgyblion i wneud cynnydd da wrth ddeall a chymhwyso eu medrau a'u gwybodaeth. Er enghraifft, mae'r disgyblion ieuengaf yn datblygu eu medrau cynnar yn llwyddiannus yn yr ardal allanol ac mae'r disgyblion hŷn yn defnyddio ystod o ddulliau i ddatrys problemau heriol yn annibynnol.

Wrth symud drwy'r ysgol, mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion yn datblygu eu medrau digidol a chreadigol yn llwyddiannus. Maent yn ymfalchïo yn y cyfleoedd a gânt i berfformio ar lwyfan ac sy'n datblygu eu hyder a'u balchder yn niwylliant Cymru yn effeithiol.

Mae arweinwyr wedi sefydlu trefniadau effeithiol ar gyfer gwerthuso gwaith yr ysgol. O ganlyniad, mae ganddynt ddealltwriaeth clir o'r cryfderau a'r meysydd i'w gwella. Mae hyn yn galluogi arweinwyr i bennu blaenoriaethau priodol fel gwella medrau darllen disgyblion a datblygu'r Gymraeg. Mae arweinwyr yn trefnu cyfleoedd dysgu proffesiynol pwrpasol i staff sy'n cael effaith gadarnhaol ar les a dysgu disgyblion ac yn cyd-fynd yn dda â blaenoriaethau datblygu'r ysgol

Mae'r ysgol yn cynnal cysylltiadau cryf â'r gymuned leol. Mae disgyblion yn ymuno â digwyddiadau a gweithgareddau lleol, gan feithrin balchder ac ymdeimlad o berthyn. Mae'r partneriaethau hyn yn cyfoethogi'r dysgu ac yn atgyfnerthu rôl ganolog yr ysgol yn y gymuned.

Mae'r staff yn annog disgyblion i ymgymryd â chyfrifoldebau arwain, sy'n rhoi cyfleoedd defnyddiol iddynt wneud penderfyniadau am sut i wella agweddau o waith yr ysgol a datblygu medrau defnyddiol. Mae hyn yn cefnogi llawer o ddisgyblion i feithrin ymdeimlad o berchnogaeth a chyfrifoldeb ac i ddatblygu medrau gwerthfawr fel cydweithio.

Mae disgyblion sy'n mynychu dosbarth arbenigol yr awdurdod lleol yn ymgysylltu'n dda â'u cyfoedion a staff. Maent yn gwrtais ac yn gweithio'n effeithiol mewn grwpiau bach ac yn unigol. Mae'r ddarpariaeth yn cefnogi'r rhan fwyaf ohonynt i wneud cynnydd cadarn yn eu medrau dros amser. Mae datblygiadau diweddar yn y ddarpariaeth yn cynnig cyfleoedd buddiol i ddisgyblion reoleiddio'u hunain drwy ddefnyddio'r ystafell synhwyraidd newydd. Drwy hyn, mae'r disgyblion yn rheoleiddio eu hunain yn effeithiol ac yn dangos

parodrwydd i ddysgu. Mae staff yn hyrwyddo ymdeimlad cryf o gynhwysiant, lle mae disgyblion y dosbarth yn mynychu gweithgareddau yn y dosbarthiadau prif lif, lle bo'n briodol. Drwy hyn, mae'r disgyblion yn datblygu ymdeimlad o berthyn a chyfleoedd i ddatblygu eu medrau cyfathrebu a chymdeithasol mewn cyd-destunau amrywiol. Mae arweinwyr yn dechrau gwerthuso'r ddarpariaeth yn briodol ac yn cynllunio cyfleoedd dysgu proffesiynol pwrpasol ar gyfer staff.

## Gwybodaeth ychwanegol

Nid yw trefniadau'r ysgol ar gyfer diogelu disgyblion yn peri pryder.

Codwyd pryder ynghylch rheoli'r safle yn ystod yr arolygiad, ac mae'r awdurdod lleol wedi cael gwybod.

Mae gan yr ysgol drefniadau priodol ar gyfer hyrwyddo bwyta ac yfed yn iach.

Mae arweinwyr a llywodraethwyr yn rheoli cyllid yr ysgol yn briodol, gan gynnwys defnyddio'r grant datblygu disgyblion.

## Sail dystiolaeth yr adroddiad

Cyn yr arolygiad, bu arolygwyr:

- yn dadansoddi deilliannau o'r holiadur i rieni/gofalwyr a'r holiadur i ddisgyblion, ac yn ystyried barn athrawon, staff a'r corff llywodraethol / aelodau'r pwyllgor rheoli trwy eu hymatebion i'w holiadur

Yn ystod yr arolygiad, bu arolygwyr:

- yn cynnal cyfarfod â rhieni/gofalwyr i glywed eu barn am yr ysgol a'i heffeithiolrwydd
- yn cyfarfod â'r pennaeth, y llywodraethwyr, uwch arweinwyr ac arweinwyr canol ac athrawon unigol i werthuso effaith gwaith yr ysgol
- yn cyfarfod â disgyblion i drafod eu gwaith, gwrando arnynt yn darllen a chael eu barn am agweddau amrywiol ar eu hysgol
- yn cyfarfod â grwpiau o ddisgyblion mewn rolau arwain, fel cynrychiolwyr y cyngor ysgol a'r pwyllgor eco
- yn ymweld â sampl eang o ddosbarthiadau, gan gynnwys grwpiau cymorth dysgu a'r ganolfan adnoddau arbenigol (lle y bo'n briodol), ac yn ymgymryd ag amrywiaeth o deithiau dysgu i arsylwi disgyblion yn dysgu ac i weld staff yn addysgu mewn amrywiaeth o leoliadau, gan gynnwys ystafelloedd dosbarth, grwpiau cymorth (lle y bo'n briodol), ac mewn ardaloedd awyr agored
- yn ymweld â'r ganolfan adnoddau arbenigol yn yr ysgol i weld dysgu'r disgyblion (lle y bo'n briodol)
- yn arsylwi ac yn siarad â disgyblion amser cinio ac amser egwyl, ac mewn sampl o glybiau ar ôl ysgol
- yn mynychu gwasanaethau ac addoli dyddiol ar y cyd
- yn edrych yn fanwl ar brosesau hunanwerthuso'r ysgol
- yn ystyried cynllun gwella'r ysgol ac yn edrych ar dystiolaeth i ddangos pa mor dda roedd yr ysgol wedi bwrw ymlaen â gwelliannau a gynlluniwyd
- yn craffu ar amrywiaeth o ddogfennau'r ysgol, gan gynnwys gwybodaeth am asesu a chynnydd disgyblion, cofnodion cyfarfodydd staff a'r corff llywodraethol, gwybodaeth am les disgyblion, gan gynnwys diogelu disgyblion, a chofnodion hyfforddiant a datblygiad proffesiynol staff

Ar ôl yr arolygiad ar y safle a chyn cyhoeddi'r adroddiad, fe wnaeth Estyn:

- adolygu canfyddiadau'r arolygiad ochr yn ochr â'r dystiolaeth ategol gan y tîm arolygu er mwyn dilysu, safoni a sicrhau ansawdd yr arolygiad

## Atodiad 1: Niferoedd – symiau a chyfrannau

Mae'r adroddiad yn cyfeirio at wahanol symiau a chyfrannau, e.e. *'y rhan fwyaf o ddisgyblion…'* neu *'ychydig iawn o ddisgyblion…'*. Rydym yn defnyddio'r termau hyn i ddisgrifio symiau a chyfrannau fel yr amlinellir yn y tabl isod:

| | |
|---|---|
| bron pob un = | gydag ychydig iawn o eithriadau |
| y rhan fwyaf = | 90% neu fwy |
| llawer = | 70% neu fwy |
| mwyafrif = | dros 60% |
| hanner = | 50% |
| tua hanner = | yn agos at 50% |
| lleiafrif = | islaw 40% |
| ychydig = | islaw 20% |
| ychydig iawn = | llai na 10% |

## Copïau o'r adroddiad

Mae copïau o'r adroddiad hwn ar gael gan yr ysgol ac ar wefan Estyn (www.estyn.llyw.cymru)

Lluniwyd yr adroddiad hwn yn unol ag Adran 28 Deddf Addysg 2005.

Cymerwyd pob rhagofal posibl i sicrhau bod y wybodaeth yn y ddogfen hon yn gywir adeg ei chyhoeddi. Dylid cyfeirio unrhyw ymholiadau neu sylwadau ynglŷn â'r ddogfen hon/cyhoeddiad hwn at:

Yr Adran Gyhoeddiadau
Estyn
Llys Angor, Heol Keen
Caerdydd
CF24 5JW neu drwy anfon e-bost at cyhoeddiadau@estyn.llyw.cymru

Mae'r cyhoeddiad hwn a chyhoeddiadau eraill gan Estyn ar gael ar ein gwefan: www.estyn.llyw.cymru

**Cyfieithwyd y ddogfen hon gan Trosol (Cymraeg i Saesneg).**

Hawlfraint y Goron 2026: Gellir ailddefnyddio'r adroddiad hwn yn ddi-dâl: (a) mewn unrhyw fformat neu gyfrwng; a (b) gellir ei gyfieithu gan neu ar ran darparwr addysg a/neu hyfforddiant y mae'r adroddiad hwn yn ymwneud ag ef i unrhyw iaith, ar yr amod y caiff ei ailddefnyddio ac/neu ei gyfieithu'n gywir ym mhob achos ac na chaiff ei ddefnyddio mewn cyd-destun camarweiniol. Ym mhob achos, rhaid cydnabod y deunydd (gan gynnwys unrhyw gyfieithiad) fel hawlfraint y Goron a rhaid nodi teitl yr adroddiad penodol.

Dyddiad cyhoeddi: 23/03/2026